

# Awgrymiadau anhygoel ar gyfer codi arian

## 1 'Does dim o'r fath air â 'Na'

Y cyfan yw 'Na' yw dechrau'r ffordd at 'Ie'. Mae 'Na' yn golygu nad yw eich prosiect yn ffitio i mewn i griteria eich cyllidwr posibl ar yr union adeg yma. Felly peidiwch fyth â throï eich cefn arnynt – daliwch i drafod a dod yn ôl gyda cheisiadau sydd ychydig yn wahanol, gan ddangos i chi ystyried amheuan blaenorol y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau.

## 2 Pan fyddwch yn wynebu amheuwyr dylech gyflwyno realiti'r prosiect iddynt

Sut mae'r plant yn cael budd o'r prosiect chwarae? Sut fyddai'r plant yn dioddef pe na bai'r cyllid yn cael ei ganiatáu?

## 3 Peidiwch â bod ofn defnyddio dadleuon emosiynol

Byddwch yn ymwybodol o fan gwan emosiynol oedolion – mae hwythau wedi profi plentyndod ac mae'n siŵr y byddant yn teimlo iddo ddod i ben yn rhy fuan, felly maent yn naturiol yn cydymdeimlo â'r angen i blant chwarae.

## 4 Dewch â rhai sy'n gwneud penderfyniadau cyllido i'r prosiect a gadael iddynt gwrdd â'r plant

Wedi'r cyfan, plant yw'r gwerthwyr gorau oll. Caniatewch i'r plant hebrwng cyllidwyr posibl, newyddiadurwyr a gweinidogion y llywodraeth o amgylch y safle'n aml. Gall hyn gynorthwyo i werthu'r prosiect chwarae oherwydd bod ymdeimlad y plentyn o berchenogaeth a chyfranogaeth wedi cael cyfle i dywynnu.

## 5 Peidiwch â dibynnu ar un ffynhonnell o ariannu

Mae buddiannau chwarae plant yn gymhleth ac yn amrywiol, sy'n golygu bod darpariaeth chwarae ddim yn syrthio i'r un categori penodol. Dylai prosiectau anelu i dderbyn cyllid o nifer o wahanol ffynonellau.

## 6 Gwnewch yn siŵr bod eich ffynonellau cyllid yn gorgyffwrdd

Bydd hyn yn cyfleu parhad i'r byd mawr y tu allan ac yn bwysicaf oll i'r plant.



## 7 Clustnodwch bobl sydd â dylanwad ar y broses gwneud penderfyniadau

Trefnwch gyfarfodydd a datblygwch nodiadau lobio ar y bobl yma. Mae sicrhau ymrwymiad pobl ddylanwadol yn aml iawn yn cyfleu datganiad o gryfder ac undod am eu prosiect.

## 8 Gwnewch i'r codi arian ymddangos yn real ac yn gymhellol

Bydd pobl yn derbyn llawer o geisiadau a chynigion. A yw'ch un chi'n sefyll allan? A yw'n cymell ymateb ar unwaith?

## 9 Byddwch yn gameleon cymdeithasol

Mae'n bwysig i ddangos parch tuag at y darpar gyllidwr ac i fod yn gymdeithasol

ac yn ddymunol gydag unrhyw un sydd ag unrhyw beth i'w wneud gyda'r penderfyniad, gan y bydd safbwynt pawb arnoch chi'n berthnasol.

## 10 Ewch i mewn i feddwl y darpar gyllidwr

Mae dysgu sut y caiff grantiau eu dyfarnu'n ffordd dda o ddysgu'r hyn sy'n ennyn ymateb gan ddsbarthwyr grantiau. Mae'n bwysig datblygu dealltwriaeth o bob cyllidwr, er mwyn ichi gael y cais yn iawn y tro cyntaf.

Tynnwyd yr awgrymiadau o lyfryn Yr Athro Fraser Brown *The Venture: A Case Study of an Adventure Playground* (Chwarae Cymru, 2007).

